Byw ar gwr y jyngl

Parch at fywyd / dyfalbarhad / dewrder

Albert Schweitzer: 1875-1965

Pan fydd plant yn cael eu bwlio, sut fyddwch chi'n teimlo? Fyddwch chi eisiau amddiffyn y rhai sy'n cael eu bwlio? Neu oes arnoch chi ofn, rhag i chi gael eich bwlio? Sut un ydi'r bwli? Mae'r stori hon yn sôn am fachgen oedd yn teimlo i'r byw pan fyddai plant eraill yn cael eu bwlio.

"Mae Albert yn fachgen mawr cryf," gwaeddai'r plant eraill ar fuarth yr ysgol. Roedd Albert wrth ei fodd yn clywed y geiriau hyn. Ar ôl iddo daro'r plentyn ddwywaith, safodd a'i ddwy goes o boptu iddo. Dechreuodd deimlo'n ddig tuag ato'i hun. Roedd ef yn fachgen llond ei groen, yn cael digon o fwyd a phopeth arall roedd arno ei angen. Doedd hynny ddim yn wir am y plant eraill yn ei ddosbarth.

"Dydw i ddim am ymladd byth eto," meddai wrth ei ffrindiau. Yn y gaeaf, pan oedd y tywydd yn oer, fyddai Albert byth yn gwisgo côt fawr. Doedd y plant eraill ddim yn gallu fforddio dillad cynnes, felly penderfynodd y byddai yntau yr un fath. Dechreuodd ofalu am blant oedd mewn angen. Pan fyddai'n crwydro o gwmpas ei gartref, byddai'n siŵr o ddod o hyd i anifail neu aderyn oedd angen help. Dyna lle byddai wedyn yn rhoi pob gofal i'r creadur. Cyn mynd i gysgu, byddai'n gofyn i Dduw ofalu am bobl ac anifeiliaid oedd mewn angen.

Roedd Albert hefyd yn fachgen oedd â diddordeb mewn llawer o bethau. Byddai wrth ei fodd yn chwarae'r organ yng nghapel ei dad. Bob dydd byddai'n darllen y Beibl. Roedd wrth ei fodd yn darllen hanesion am Iesu. Iddo ef, doedd darllen y straeon ddim yn ddigon, roedd ef eisiau gwneud y pethau roedd Iesu wedi eu gwneud. Yn y Testament Newydd mae hanesion am Iesu yn gwella'r cleifion. Roedd Albert yntau eisiau gwneud yr un peth.

Ar ôl bod yn athro mewn coleg am gyfnod, fe aeth yn ôl i'r coleg i fod yn fyfyriwr. Roedd am astudio i fod yn feddyg. Pan oedd yn 30 oed dechreuodd astudio i fod yn feddyg. Priododd â nyrs, Hèlène Bresslau, ac aeth y ddau i weithio i Affrica.

Y cam cyntaf oedd adeiladu ysbyty. Doedd hynny ddim yn waith hawdd ar gwr y jyngl. Ymhen rhai misoedd roedden nhw

wedi codi adeilad bregus iawn. Hwn oedd yr ysbyty. Doedd Albert a'i wraig ddim yn awyddus i godi adeilad tebyg i'r rhai yn Ewrop. Byddai adeiladau felly wedi codi ofn ar y bobl leol.

O dipyn i beth, daeth y bobl leol i glywed am y "meddyg" newydd oedd wedi cyrraedd yr ardal. Roedd pobl y jyngl yn dioddef o bob math o afiechydon – malaria, niwmonia, gwahanglwyf a hyd yn oed frathiadau gan nadroedd. Fesul un byddai Albert a Hèlène yn gofalu amdanyn nhw. Aeth y sôn amdanyn nhw ar hyd ac ar led.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf carcharwyd Albert a'i wraig yn Ffrainc. Yn ystod y cyfnod yma torrodd iechyd Hèlène. Tra oedden nhw yn Ffrainc rhoddodd Hèlène enedigaeth i ferch fach. Ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, bu'n rhaid i Albert fynd yn ôl i Affrica ar ei ben ei hun. Roedd Hèlène yn rhy wan i wynebu'r daith. Bob hyn a hyn byddai Albert yn dychwelyd i Ffrainc i weld ei wraig a'i ferch fach.

Bu Albert fyw gydol ei oes ynghanol brodorion Affrica ac yno yn eu canol y bu farw.

"Paid ag esgeuluso'r ddawn sydd ynot ac a roddwyd i ti..."

1 Timotheus 4:14

O Dduw,
roeddet ti wedi
pentyrru doniau
ar y gŵr mawr hwn.
Rho i mi nerth i
ddefnyddio'r ddawn
sydd gen i
i'th wasanaeth.
Amen.

Y syniad allweddol ym mywyd Albert Schweitzer oedd dangos parch at fywyd.
Beth yn union ydi ystyr hyn?

Albert Schweitzer: 1875-1965